OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 3045 (Cy. 304)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Ceredigion (Diddymu) a Choleg Ceredigion (Sefydliad Dynodedig mewn Addysg Bellach) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *3 Rhagfyr 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *5 Rhagfyr 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Rhagfyr 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 27C o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**)a thrwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 28 o'r Ddeddf honno ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Yn unol ag adran 27C(2) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae Coleg Ceredigion ("Coleg Ceredigion")(**3**) wedi cydsynio i'r trosglwyddiad o eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Ceredigion ("Coleg Ceredigion Further Education Corporation").

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Ceredigion ("*Coleg Ceredigion Further Education Corporation*") yn unol ag adran 27C(6) o'r Ddeddf honno.

(**1**) 1992 p.13; rhoddwyd adran 27C yn lle adran 27 fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, gan Ddeddf Addysg 2011 (p.21), adran 49, Atodlen 12, paragraffau 1 a 7.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 28 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32.) a pharagraff 30(1) a 30(2)(a) o Atodlen 11 iddi.

(**3**) Ymgorfforwyd ar 9 Hydref 2013 yn gwmni cyfyngedig drwy warant a chofrestrwyd â rhif cwmni 08725643.